Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanddarog
Llanddarog
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA32 8BJ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanddarog

Lleolir Ysgol Wirfoddol Llanddarog ar gyrion tref Caerfyrddin, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 93 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin amser llawn. Trefnir y disgyblion yn bedwar dosbarth oed cymysg.

Mae 85% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae’r ysgol wedi adnabod tua 18% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na’r ganran genedlaethol, sy’n 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Dros dreigl tair blynedd, tua 0.9% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn sylweddol is na’r ganran genedlaethol, sy’n 18%.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2012. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2013. Ers dechrau tymor yr Hydref 2019, mae athrawes â gofal yn rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd cymeriad crefyddol gan yr ysgol. Yn hytrach, mae’n ofynnol yn gyfreithiol i’r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles a gofal disgyblion yn ganolog i waith Ysgol Wirfoddol Llanddarog. Mae'r staff yn rhoi pwyslais cryf ar greu cymuned ofalgar a chynhwysol mewn awyrgylch hapus. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Ar y cyfan, mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu a dangosant falchder amlwg am yr iaith Gymraeg a hanes yr ardal leol a thu hwnt. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran safonau, yn enwedig y disgyblion mwy abl. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion i gyd yn gwneud cynnydd effeithiol.

Mae'r staff yn cydweithio'n agos â'i gilydd ond ar hyn o bryd, nid yw eu rolau strategol yn glir. Er bod y staff yn adnabod cryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant, nid yw'r gweithdrefnau hunanwerthuso'n ddigon trylwyr i adnabod nac i fynd i'r afael a'r materion pwysig sydd angen eu gwella.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Datblygu rol arweinwyr ar bob lefel i sicrhau bod gweithdrefnau yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella

A2 Gwella defnydd o'r system olrhain cynnydd y disgyblion a sefydlu gweithdrefnau cadarn i gynorthwyo'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

A3 Codi disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her briodol i ddisgyblion ac i'w datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A4 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n unol â neu'n uwch na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd disgwyliedig. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd. Mae ychydig o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau personol.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn gryf iawn ar draws yr ysgol. Mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn cychwyn yr ysgol gyda medrau cadarn iawn yn y Gymraeg. Maent yn sgwrsio gydag oedolion a'i gilydd yn hyderus ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn trafod eu gwaith yn fanwl. Defnyddiant eirfa aeddfed wrth drafod ymweliad anifeiliaid anwes eu cyfoedion i'r dosbarth neu wrth chwarae rôl y milfeddyg. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi barn yn glir gyda chywirdeb yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ddadlau pwrpas teithiau addysgol. Mae bron pob un yn dangos balchder tuag at siarad eu hiaith Gymraeg naturiol. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwrando'n ofalus mewn cyflwyniadau ar lawr y dosbarth.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen llyfrau amrywiol ac yn eu trafod yn hyderus. Mae llawer yn trafod y cymeriadau'n fanwl ac yn defnyddio eu gwybodaeth ffoneg yn grefftus wrth ddarllen geiriau heriol. Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fedrau darllen effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl gan ddangos dealltwriaeth gref o'r testun. Maent yn trafod y prif bwyntiau ac yn rhagfynegi'n synhwyrol. Gall y rhan fwyaf gasglu ffeithiau'n effeithiol a'u cyflwyno mewn ffurfiau gwahanol, er enghraifft sut i oroesi'r Blits neu ynglŷn â'r bard, Hedd Wyn.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ddwyn i gof hanes Santes Dwynwen ac anturiaethau'r pili pala. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ar draws rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu bywgraffiad am Fardd Plant Cymru neu gyflwyno ffeithiau am Louis Braille. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall cysyniadau mathemategol yn dda. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i ymestyn eu gwybodaeth yn effeithiol yn ystod gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau rhif, siâp, mesur a thrin data yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adnabod darnau o arian ac yn gallu adio cyfansymiau o ddarnau arian amrywiol i'r geiniog olaf yn gyflym. Mae llawer yn medru cadw cydbwysedd clorian drwy gymharu pwysau anifeiliaid meddal

gydag unedau ansafonol fel bagiau o greision uwd. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio strategaethau rhif, yn dadansoddi nodweddion siapiau a datrys fformiwlâu algebraidd syml yn gywir. Maent yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn tasgau mathemategol yn drefnus. Er enghraifft, maent yn cyfrifo arwynebedd siapiau cyfansawdd a chreu bas data ar gyflymder llif yr afon Gwili. Fodd bynnag, mae medrau disgyblion mwy abl yn cael eu llesteirio oherwydd y gorddefnydd o daflenni gwaith, a phrin y maent yn dewis y dulliau mathemategol mwyaf addas i gwblhau tasgau newydd yn annibynnol. Lleiafrif o ddisgyblion sy’n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu’n raddol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol wrth dynnu llun a chofnodi eu storïau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio’r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith am Owain Glyndŵr. Maent yn casglu data a’i gyflwyno’n addas ac yn dechrau defnyddio taenlenni er mwyn cyflwyno gwybodaeth am geir gwahanol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt yn y maes hwn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder dros eu hysgol ac yn teimlo’n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan eu bod yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar o’i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn llwyddiannus. Mae bob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd gofal dros holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen drwy eu harwain i’r gwasanaeth dyddiol ac wrth wrando arnynt yn darllen yn wythnosol. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy’n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus, er enghraifft wrth iddynt gydweithio ar gynlluniau i addasu’r ardal allanol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau eraill. Mae bron pob disgybl yn deall sut i ymddwyn yn dda ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar ei gilydd mewn grwpiau bach. Fodd bynnag, nid yw hyn mor amlwg wrth iddynt wrando ar gyflwyniadau athrawon mewn gwersi.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ymarfer corff ac yn y clwb ‘aml-chwaraeon’ wythnosol. Yn ogystal, mae’r disgyblion yn hyrwyddo’r defnydd o’r siop ffrwythau ac yn ymddiddori mewn sesiynau coginio a bwyta’n iachus yn effeithiol. Er enghraifft, drwy eu thema, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cymharu pecynnau bwyd plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd â'u pecynnau bwyd iachus nhw. Mae bron pob un, yn unol â’u hoed, yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cyfrannu’n fuddiol i’w dysgu ac yn cynnig syniadau ar gyfer y themâu tymhorol yn hyderus. Mae gan y disgyblion hŷn y medrau i wella’u gwaith eu hunain yn llwyddiannus ac maent yn ymateb yn fwy rheolaidd i sylwadau ‘ffordd ymlaen’ yr athrawon.

Mae disgyblion yn manteisio ar gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned leol, fel cynnal cyngherddau a chyfrannu i sioe amaethyddol y pentref. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin yn ddeallus ac yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a chydwybodol. Mae llawer o ddisgyblion yn rhan o gynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at fore coffi elusen cancr adnabyddus sy'n cryfhau eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol yn dda.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan weithredol yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol nifer o gynghorau, fel y cyngor eco, a'r llysgenhadon chwarae, digidol a hawliau plant. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau pwrpasol dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Trwy wrando'n astud ar lais y disgybl, mae'r cyngor eco wedi cynllunio a chreu gardd weddi a threfnu wythnos masnach deg blynyddol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am anghenion pobl eraill yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol iawn. Drwy nifer o weithgareddau'r cwricwlwm a ddarperir gan yr holl staff, maent yn cyfoethogi gwybodaeth a hunaniaeth y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio â chyfansoddwyr cyfoes, beirdd ac ymweld â'r ardal gyfagos a thu hwnt. Mae bron pob aelod o staff yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg i ddisgyblion ac yn weithgar wrth gyfoethogi eu hiaith. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at fedrau llafar rhugl y disgyblion.

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu, sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae themâu bachog fel 'Cestyll a Dreigiau' a 'Gwingo ac Ymlusgo' yn meithrin agweddau dysgu cadarnhaol ymhlith y disgyblion. Mae'r ysgol gyfan wedi dechrau cynllunio'n briodol yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion wneud dewisiadau penodol ynghylch beth yr hoffent ei ddysgu. Mae nifer o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion Blwyddyn 5 yn ymchwilio i beryglon plastig ar afonydd lleol a disgyblion Blwyddyn 3 yn cymharu bywyd faciwî gyda'u bywyd heddiw drwy weithgaredd y gadair boeth. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio agweddau o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol. Mae athrawon yn dechrau cynllunio i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith ac maent yn darparu cyfleoedd addas i alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n addas. Mae'r staff yn cyd-gynllunio nifer o weithgareddau cadarn yn yr ardaloedd dysgu tu fewn y dosbarth ac yn yr ardal allanol. Yn ddiweddar, mae cyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu syniadau tuag at weithgareddau parhaus, er enghraifft i greu adeilad i anifail fferm. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn gor-arwain gweithgareddau ac yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Ar y cyfan, nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o weithgareddau sy'n cynnig her briodol iddynt, sydd o ganlyniad yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae perthynas gadarn rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol. Mae llawer o athrawon yn cynnal awyrgylch effeithiol yn eu dosbarthiadau lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu. Maent yn cynnig nod clir i'r wers a chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Mae llawer o'r athrawon yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac, ar y cyfan, mae cyflymder y gwersi'n bwrpasol. Mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth briodol er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o'u tasgau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf o'r athrawon wedi mynd i'r afael â sicrhau her bwrpasol i ymestyn yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy galluog. Yn ogystal, mae disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad y disgyblion ar ddechrau gwersi yn anghyson ar draws yr ysgol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Mae'r staff yn creu ethos gofalgar a chefnogol ar gyfer y disgyblion mewn amgylchedd diogel.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gadarn. Gwneir defnydd gwerthfawr o weithgareddau celfyddydol i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi cymryd rhan mewn cywaith llwyddiannus yn seiliedig ar lyfr barddoniaeth 'Geiriau Coll'. Caiff disgyblion gyfleoedd bwriadus i efelychu, gwrando ar, a gwerthuso, darnau o gerddoriaeth a gwahodd perfformwyr i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau creadigol a mynegiannol y disgyblion yn ddeallus ac yn gwella'u hunanhyder yn gadarn. Mae amrywiaeth dda o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau yn y pentref, i gystadlu mewn cwis lyfrau ac yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae gwasanaethau boreol, gwersi addysg grefyddol ac ymweliadau wythnosol gan y ficer lleol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gwasanaethau yn eglwys y plwyf yn cyfoethogi hyn ymhellach. Mae'r athrawon yn addysgu'r disgyblion am ddiwylliant Cymru yn dda trwy nifer o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn ymweld â chestyll cyfagos ac, yn ogystal, trefnir cwrs preswyl yn Llangrannog i sicrhau bod eu medrau personol a chymdeithasol yn datblygu'n effeithiol. Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddeall anghenion disgyblion gwahanol, sy'n ychwanegu'n llwyddiannus at y naws gynhwysol o fewn y dosbarthiadau. Mae cysylltiad yr ysgol, ac ymweliad blynyddol, â theulu o Felarws, yn annog y disgyblion i gymharu diwylliannau gwahanol ac i ddeall materion y byd ehangach yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae sesiynau chwaraeon amser egwyl y llysgenhadon chwaraeon, gwersi ymarfer corff a chystadlaethau rhwng ysgolion cyfagos yn annog y disgyblion i gadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng athrawon a rhieni. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i roi gwybod am y digwyddiadau allweddol ac i rannu gweithgareddau gwahanol pob dosbarth. Trwy nosweithiau agored tymhorol, cynigir cyfleoedd pwrpasol i'r rhieni ymweld â'r ysgol i edrych ar lyfrau eu plant sy'n cryfhau eu dealltwriaeth o beth maent yn dysgu yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn defnyddio gweithdrefnau electronig addas i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Yn ddiweddar, mae’r athrawon wedi dechrau defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio ohono i ddylanwadu ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon trylwyr i dargedu grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rhai sy’n fwy galluog.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn foddhaol. Mae gan bob disgybl gynllun addysg unigol perthnasol. Cynigir cyfle pwrpasol i rieni gyfrannu tuag at dargedau eu plant mewn nosweithiau agored. Fodd bynnag, nid yw’r targedau a osodir bob tro’n ddigon penodol, ac nid yw’r ddarpariaeth yn cael digon o effaith ar gynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion. O ganlyniad, cyfyngedig yw cynnydd llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae’r ysgol yn darparu sesiynau amlgyfrwng a chymdeithasol pwrpasol yn rheolaidd. Mae’r gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblion i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol ac yn eu helpu i ymdopi’n well â bywyd o ddydd i ddydd.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli rhwng asiantaethau arbenigol fel y seicolegydd addysg, y nyrs a’r heddlu. Yn ogystal, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ymgymryd â rolau arweiniol ym mywyd a gwaith yr ysgol a’r gymuned. Enghraifft effeithiol yw rôl disgyblion Blwyddyn 6 wrth drefnu a hyfforddi'r disgyblion eraill ar gyfer eisteddfod yr ysgol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae’r disgyblion yn deall bod dyletswydd arnynt i leihau unrhyw risg yn eu bywydau, fel cadw’n ddiogel wrth groesi’r ffordd. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Yn yr ychydig wythnosau ers absenoldeb y pennaeth, mae arweinyddiaeth ofalgar a didwyll yr athrawes â gofal wedi cefnogi’r staff yn llwyddiannus er mwyn cynnal yr ethos cadarnhaol, ysgol gyfan. Mae’r weledigaeth gadarn i greu cymuned gartrefol a chynhwysol yn amlwg ac mae’r pwyslais ar sicrhau lles a Chymreictod y disgyblion wedi llwyr ymwreiddio ac yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Rhennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus gan y staff, llywodraethwyr, rhieni a’r disgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn, a dangosant falchder yn yr ysgol. Trwy ymweliadau cyson a theithiau dysgu, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r nifer o feysydd sydd angen eu gwella. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau gweithredu fel ffrindiau beirniadol effeithiol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw’r corff llywodraethol wedi cyfrannu’n ddigon at osod cyfeiriad strategol i’r ysgol.

Mae’r staff i gyd yn gweithio’n dda fel tîm o ddydd i ddydd ac mae’r athrawon yn cyflawni eu rôl fel arweinwyr cwricwlaidd yn fwriadus. Mae cynlluniau’r ysgol ar gyfer datblygu medrau’r athrawon yn cysylltu’n bwrpasol â’r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Darperir cyfleoedd hyfforddiant defnyddiol i fynd i’r afael â blaenoriaethau’r ysgol a chenedlaethol, fel ymgorffori’r siarter iaith a chynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at beth yr hoffent ddysgu. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau strategol y staff yn glir a, gan amlaf, maent yn gweithredu’n unigol o fewn eu cyfrifoldeb cwricwlaidd neu gyfnod allweddol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso addas, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith a dadansoddi data. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r gweithdrefnau hyn yn galluogi’r staff i adnabod cryfderau’r ysgol a rhai o’r meysydd

ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, nid oes gan y gweithdrefnau monitro ddigon o ffocws ar arfarnu safonau disgyblion ac i wella'r ddarpariaeth.  O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi adnabod meysydd pwysig i'w datblygu, fel yr anghysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r diffyg her i ddisgyblion mwy abl.

Mae gwaith gwella'r ysgol yn briodol.  Er enghraifft, gwelir gwelliant mesuradwy a chynnydd dros amser wrth godi safon medrau llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg.  Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau hunanwerthuso yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.  Nid oes digon o bwyslais ar fesur effeithiolrwydd y camau gwella.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol ac mae gwariant yn cael ei ddadansoddi'n ofalus.  Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau sylweddol a chyson o'r gymdeithas rhieni, staff a ffrindiau'r ysgol, er enghraifft o ran gallu darparu adnoddau cyfrifiadurol a llyfrau darllen newydd.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion.  Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad i greu amgylchedd dysgu priodol.  Yn ddiweddar, mae'r ardal ddysgu allanol yn hybu creadigrwydd a medrau cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2019